YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

Trawsffurfio Cymunedau a Chynulleidfaoedd

Enghreifftiau o brosiectau mewn Eglwysi ar draws Gogledd Cymru

Rhagymadrodd

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu rhai o'r prosiectau cyffrous mewn eglwysi yn Esgobaethau Llanelwy a Bangor sydd wedi datblygu ac ehangu'r defnydd a wneir o adeilad yr eglwys.

Enghreifftiau sydd yma, ac nid ar unrhyw gyfrif bob prosiect a gyflawnwyd, ond maent yn rhoi darlun eang o'r hyn y gellir ei gyflawni.

Ar gyfer pob enghraifft ceir person cyswllt er mwyn ichi fedru trafod y manylion ymhellach a phennwyd bandiau cost ar gyfer pob prosiect fel a ganlyn:

Band Cost	*Brasamcan o Werth*
A	Dan £25,000
B	£25 -100,000
C	£100,000 – 250,000
CH	Dros £250,000

Gall eich swyddfa Esgobaethol a'r Corff Cynrychioliadol gynnig cyngor a chymorth os ydych yn meddwl datblygu prosiect i ddefnyddio'ch Eglwys mewn modd newydd. Efallai bydd y manylion cyswllt canlynol o gymorth:

Llanelwy:

Tracey White
Cynnal a Chyllido'r Plwyf
Ffôn: 01745 582245
traceywhite@churchinwales.org.uk

Bangor:

Stella Schultz
Ysgrifennydd yr Esgobaeth
Ffôn: 01248 354999
stellaschultz@churchinwales.org.uk

Y Corff Cynrychioliadol:

Alex Glanville
Pennaeth Gwasanaethau Eiddo
Ffôn: 029 2034 8212
alexglanville@churchinwales.org.uk

Y Parch Robin Morrison
Cynghorwr yr Esgob ar yr Eglwys a'r Gymdeithas
Ffôn: 029 2034 8260
robinmorrison@churchinwales.org.uk

Y bwriad yw y bydd y llyfryn hwn yn cael ei ymestyn, maes o law, i gynnwys yr holl Esgobaethau yng Nghymru.

Ebrill 2008

YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

Y BALA

Bu ymgais yn y gorffennol i greu ystafell gwrdd fechan yn nhŵr Eglwys Crist,Y Bala, ond cafwyd problem gyda lleithder gan olygu nad oedd modd defnyddio'r ystafell. Roedd yr eglwys yn oer a llaith ac nid oedd y cyfleusterau angenrheidiol yno ar gyfer y gynulleidfa. Er bod nifer o gyfleusterau cymunedol yn bodoli yn y dref roedd llawer o ddefnydd ohonynt ac roedd yr eglwys yn aml yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i fan cyfarfod addas ar gyfer eu gweithgareddau, gan orfod troi fel arfer at yr ysgol gynradd leol yr eglwys.

Penderfynwyd y dylid ad-drefnu'r eglwys oddi mewn, unwaith i'r gwaith atgyweirio i ffabrig yr adeilad gael ei gwblhau, er mwyn darparu cyfleusterau modern a gofod hyblyg a fyddai'n addas ar gyfer sawl gweithgaredd gwahanol. Byddai hefyd yn cynnig gwagle ar wahân gan olygu bod modd cynnal dau weithgaredd ar yr un pryd. Ystyriaeth allweddol oedd bod yr eglwys yn dymuno cadw'r un nifer o seddau ag oedd ganddynt cyn dechrau'r prosiect.

Roedd y prosiect yn golygu gwaith atgyweirio mawr i'r to ac i ffabrig yr eglwys. Stripiwyd y gofod mewnol yn ôl yn gyfan gwbl gan ddechrau o'r newydd gydag ystafell gymunedol, swyddfeydd amrywiol, toiledau a chegin. Sicrhawyd fod nifer y seddau yn aros yr un fath trwy ddarparu seddi ar do'r ystafell gymunedol mewn galeri. Ariannwyd y prosiect trwy werthu asedau'r plwyf, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Cadw, Grantiau'r Corff Cynrychioliadol ac Esgobaethol a chefnogaeth hael gan sawl ymddiriedolaeth elusennol breifat. Bu'r plwyf hefyd yn hynod brysur gyda'u hymgyrch codi arian.

Band Cost: CH

Cyswllt: Y Parch Nia Morris
Ffôn: 01678 521047

CILCAIN

Roedd eglwys Cilcain yn eglwys wledig ag iddi gorff dwbl gyda'r corff gogleddol wedi ei sgrinio o'r neilltu yn y 1960au. Mae sylfaen pren i'r sgrin, a hefyd ffenestri gwydr y gellir eu gostwng fel bod modd gweld y corff deheuol a'r allor.

Roedd y corff gogleddol yn cael ei ddefnyddio fel man storio ac i gadw eitemau i'w defnyddio yn sioe'r pentref. Canfu'r Cyngor Plwyf Eglwysig presennol fod y gynulleidfa, hyd yn oed yn 1966, yn gwybod fod rhaid gwneud rhywbeth gyda'r gofod!

Yn 2007, penderfynwyd ei bod hi'n amser gwneud rhywbeth gyda'r gwagle i'w wneud yn adnodd defnyddiol ar gyfer yr eglwys. Mae neuadd bentref yn bodoli eisoes at ddefnydd y trigolion, a hefyd capel sydd wedi ei addasu ar gyfer cyfarfodydd mawr, ond roedd yr eglwys am ddarparu cyfleusterau ar gyfer y gynulleidfa, a lle i grwpiau llai o faint gwrdd.

Ar gyfer y prosiect roedd rhaid lefelu'r llawr, gosod "ciwb toiled" o fewn y gofod, a chreu "cegin mewn cwpwrdd". Bellach mae'r ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer sawl gweithgaredd gwahanol, gan gynnwys addoli, cyfarfodydd, arddangosfeydd celf, addoli anffurfiol a grŵp chwarae'r eglwys i blant bach.

Ariannwyd y prosiect gan gronfa wrth gefn yr eglwys, Cronfa Deddf Eglwys Cymru, Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau a Grant Esgobaethol ar gyfer Eglwysi.

Band Cost: B

Cyswllt: Y Parch Brian Harvey
Ffôn: 01745 584321
Neu 01352 741376

CEGIDFA

Mae eglwys Cegidfa yn eglwys bentref restredig gradd I. Mae'r gynulleidfa yn trefnu calendr cymdeithasol bywiog ac roeddent am ddiweddaru'r cyfleusterau i'w cynorthwyo yn eu cymrodoriaeth. Penderfynwyd gosod cegin yng nghefn yr eglwys sy'n agored i'r corff.

Gosodwyd y gegin heb gyfaddawdu ar ffabrig yr adeilad. O edrych yn agosach gwelir bod bwlch bychan iawn rhwng cefn y wyneb gweithio a'r wal. Costiodd y gegin fwy na fyddai wedi ei gwneud o brynu un parod am iddynt ddefnyddio'r deunyddiau gorau a chrefftwr i'w hadeiladu. Fodd bynnag, teimlwyd fod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau'r caniatâd angenrheidiol, ac fel nad oedd yn amharu gormod ar olwg yr eglwys.

Ariannwyd cost y prosiect o gronfa wrth gefn y plwyf.

Band Cost: A

Cyswllt: Y Parchedig Ganon Roger Bird
Ffôn: 01938 554245

LLANGOLLEN

Is-eglwys fechan i brif eglwys y dref yw Sant Ioan. Mae'r eglwys gyferbyn â'r mynediad i safle'r Eisteddfod ac mae'r addoli yn digwydd yma yn y Gymraeg. Roedd y gynulleidfa fechan am ddiweddaru'r eglwys a darparu gofod hyblyg ar gyfer gwasanaethau clyd neu gyfoes, yn ddewis amgen i'r brif eglwys. Yn benodol roeddent yn awyddus i groesawu ymwelwyr a darparu tystiolaeth, gan ganolbwyntio ar letygarwch a cherddoriaeth. Roeddent hefyd am ddarparu man heddychlon.

Ariannwyd rhan fwyaf o'r prosiect o'r gronfa wrth gefn. Gwerthwyd yr eisteddleoedd i dalu am gadeiriau newydd.

Band Cost: A

Cyswllt: Y Parch Andrew Sully
Ffôn: 01978 860231

CEI'R TRALLWNG

Eglwys bentref fechan yw Cei'r Trallwng ar ffordd brysur yr A483 o'r gogledd i'r de. Am ei bod wedi ei lleoli rywfaint y tu hwnt i'r pentref mae mynd i'r eglwys fel rheol yn siwrne yn y car. Roedd y gynulleidfa am ddiweddaru'r cyfleusterau i fod yn adnodd ar gyfer yr ardal ac i sicrhau bod yr eglwys yn goroesi yn y tymor hir.

Roedd sawl elfen i'r prosiect; darparu maes parcio; creu mynedfa newydd o'r maes parcio oedd yn cwrdd â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd; cuddio cefn y corff i greu gofod hyblyg ar ddau lawr, toiledau a chegin.

Crëwyd mynediad ar wahân ar gyfer y ddwy ystafell sy'n golygu bod modd cynnal tri gweithgaredd yn yr eglwys ar yr un pryd.

Bellach mae sawl sefydliad eglwysig a'r Esgobaeth yn defnyddio'r ystafelloedd cyfarfod. Oherwydd ei lleoliad ar y ffordd fawr, penderfynodd y gynulleidfa ddarparu lluniaeth yn ystod y gwanwyn a'r haf i deithwyr sy'n pasio heibio. Gyda maes parcio, toiledau ac ystafell eang a braf, mae'r caffi nid yn unig yn codi arian ond hefyd yn gobeithio annog pobl i ddod i mewn i'r eglwys na fyddai fel arfer yn gwneud hynny.

Band Cost: C

Cyswllt: Mrs Judy Crow
Ffôn: 01938 590453

ABERDARON

Aethpwyd ati i adnewyddu eglwys Sant Hywyn yn gyfan gwbl gan sicrhau bod yr adeilad yn ddwrglos a chynnes. Cafwyd amddiffynfeydd morol newydd, a darparwyd mynediad i'r anabl a rhywfaint o fannau parcio ceir.

Mae'r weinidogaeth ar gyfer ymwelwyr a phererinion yn rhan bwysig o genhadaeth yr eglwys hon. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf cynyddodd nifer y pererinion a chyfnerthwyd y cyswllt gydag Ynys Enlli.

Mae sawl grŵp o bererinion yn ymweld o fannau pellennig er mwyn profi harddwch a hedd yr ardal ac i gysylltu â'r gorffennol drwy gerdded Llwybr Gogleddol y Pererinion o Fangor i Aberdaron, neu'r Llwybr Deheuol o Borthmadog.

Band Cost: CH

Cyswllt: Y Parch Evelyn Davies
Ffôn: 01766 522677

BETWS-Y-COED

Cyhoeddwyd eglwys Sant Mihangel yn afraid yn y flwyddyn 2000 pan wynebodd y Cyngor Plwyf Eglwysig gostau adnewyddu o bron i £50,000. Gosodwyd yr adeilad ar brydles i Ymddiriedolaeth Sant Mihangel Betws-y-coed, a ddechreuodd y prosiect adnewyddu, gyda chefnogaeth Cyfeillion Sant Mihangel.

Mae dau brif ran o'r gwaith atgyweirio eisoes wedi eu cwblhau. Yn 2001 gwnaethpwyd y to yn ddwrglos, rhoddwyd llechi newydd ar do'r festri, a thynnwyd y gwaith plastr oedd wedi ei niweidio gan ddŵr yn dod i mewn i'r adeilad oddi ar y waliau (tua un rhan o dair o'r cyfanswm) er mwyn i'r waliau gael sychu. Yn 2004 ail-bwyntiwyd y waliau allanol, amnewidiwyd y gwaith plastr mewnol gyda phlastr calch traddodiadol, a gosodwyd trydan a hefyd system oleuo a gwresogi anamlwg disylw. Ers hynny mae'r system oleuo â chanhwyllau sy'n 35 mlwydd oed wedi ei ddisodli gan ganwyllbrennau iawn sydd wedi eu gosod ar y waliau a chandelabra sy'n crogi mewn man canolog.

Cyn y gwaith

Y weledigaeth oedd adfer yr adeilad i rywfaint o'i ysblander blaenorol, a darparu mynediad fel bod modd i ymwelwyr i Fetws-y-coed ddysgu mwy am ei hanes. Mae trefnu bod stiwardiaid yno ar y Suliau rhwng Y Pasg a mis Medi i siarad ag ymwelwyr yn annog cyfraniadau ac yn helpu gyda'r prosiect adnewyddu sydd ohoni.

Wedi'r gwaith

Mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi'r adeilad ar ei newydd wedd, ac mae'r sylwadau yn llyfr yr ymwelwyr yn llawer mwy cadarnhaol nag oeddent cyn y gwaith atgyweirio. Er nad yw'r eglwys bellach yn cael ei defnyddio'n rheolaidd, cynhelir dau wasanaeth yn eglwys Sant Mihangel bob blwyddyn, ac mae llawer o ymwelwyr yn eistedd a gweddïo neu'n cynnau cannwyll yn ystod eu hymweliad. Fodd bynnag, erys y cwestiwn o sut i ddefnyddio'r adeilad mewn modd effeithiol a sut i sicrhau ei ddyfodol.

Band Cost: B

Cyswllt: Mr Jim Boughton
Ffôn: 01690 710333

DYFFRYN ARDUDWY, HARLECH

Adnewyddwyd bloc y Stabl yn ymyl Rheithordy Dyffryn o fod yn 'sgubor' adfeiliedig i fod yn adeilad ag iddo dair ystafell cyfarfod, cegin a dau doiled (un yn ystafell gawod i'r anabl). Trawsffurfiwyd iard y stabl i fod yn ardd furiog. Y nod oedd darparu man cyfarfod pwrpasol ar gyfer plant y plwyf.

Mae'r Stablau wedi galluogi'r Plwyf i ehangu'r gwaith ar gyfer plant (e.e. Clwb Wedi Ysgol, Gweithdy Dydd Gwener y Groglith, Clwb Gwyliau Haf) a hefyd i ddatblygu man o iachâd ble gall cleifion a galarwyr ddod i brofi tylino therapiwtig, cael cyngor bugeiliol a chlust sy'n gwrando. Mae'r Stablau hefyd yn le ble mae'r plwyf yn ymgynnull i fwynhau bwyd, hwyl a chymrodoriaeth.

Mae'r Stablau wedi tyfu i fod yn ganolbwynt i fywyd y plwyf, gan alluogi codi pontydd rhwng yr eglwys a'r capel, ac i dynnu pobl i mewn i deulu'r eglwys o du allan i gymuned yr addolwyr.

O edrych yn ôl, byddai'n dda petai garej y Rheithordy wedi ei gynnwys yn y prosiect gwreiddiol am fod y Stablau'n aml yn orlawn!

Band Cost: B

Cyswllt: Y Parch Stephanie Beacon
Ffôn: 01766 781336

LLANDECWYN

Yr hyn a ddigwyddodd yn Eglwys Sant Tecwyn yw prosiect saith-mlynedd i ateb y cwestiwn: 'A fedrwn ni adfywio eglwysi bychain fel mannau o weddi dawel, lletygarwch syml a sgyrsiau meddylgar?' Yr ateb heb os yw: MEDRWN! A dyma sut:

- Clirio'r annibendod a chreu gofod gwag ond croesawgar ble nad yw dodrefn na gwrthrychau na chroesawyr yn rhy amlwg, gan adael i'r gofod a'r tawelwch a'r symlrwydd wneud eu gwaith eu hunain.
- Sicrhau bod gweddi, hyd yn oed os nad oes neb yn dod: o leiaf rai munudau o dawelwch! Sicrhau bod adnoddau gweddïo ar gael ond ar y ffordd i mewn i'r gofod gwag.

- Sicrhau bod 'ysbytywr' yma i groesawu ymwelwyr. Trefnu bod yr amseroedd agor yn cyd-fynd ag argaeledd yr ysbytywyr. Yn Llandecwyn penderfynwyd mai da fyddai agor rhwng 2 a 5 pob prynhawn o ddiwedd Mai i ganol Medi.

I greu'r gofod, dadsgriwiwyd y meinciau o'r llawr (ar gyfer digwyddiadau'r plwyf, deirgwaith y flwyddyn a hefyd gwasanaethau achlysurol iawn fe'u sgriwiwyd yn ôl i'w lle!). Daethpwyd â thrydan i mewn i'r eglwys, gwnaethpwyd gwaith atgyweirio amrywiol, a phrynwyd rhywfaint o offer.

Band Cost: A

Cyswllt: Y Parch. Jim Cotter
Ffôn: 01758 760296

ST MAELOG CHURCH LLANFAELOG

Daeth y prosiect hwn i fod trwy gymynrodd i Eglwys Sant Maelog nad oedd i'w ddefnyddio i unrhyw ddiben arall. Roeddem am wneud yr eglwys yn addas i'w defnyddio yn yr 21ain ganrif, ac yn ddigon hyblyg i gael ei defnyddio gan y gymuned. Yn esthetaidd ac yn ymarferol siapiwyd y weledigaeth yn y lle cyntaf gyda chymorth y pensaer, ac yna fe ddaeth yn fyw wrth i'r eglwys gael ei defnyddio.

Aildrefnwyd gofod mewnol yr eglwys a thrwsiwyd yr adeiledd a'r tu allan. Cafwyd cadeiriau yn lle'r hen eisteddleoedd, ychwanegwyd system wresogi tanlawr, gosodwyd carped yn yr eglwys drwyddi draw ac adeiladwyd ystafell gyfarfod uwchlaw'r eglwys.

Ychwanegwyd cegin a thoiledau. Comisiynwyd gwaith coed a gwydr newydd gan artistiaid lleol.

Y canlyniad yw adeilad ble mae'r gorau o'r hen nodweddion (Fictoraidd) wedi eu cadw a'u plethu gyda dyluniad a chelfyddyd o'r 21ain ganrif. Llwyddwyd i greu eglwys hyblyg o ran defnydd ac un sy'n ymarferol i'w chynnal a'i chadw, sy'n golygu fod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r adeilad. Mae'r gegin a'r toiledau yn caniatáu cynnal digwyddiadau ble darperir bwyd a hefyd digwyddiadau trwy gydol y dydd, felly gwneir y defnydd mwyaf o'r eglwys gyda dosbarthiadau, dyddiau astudio, cyngherddau, ayb, yn ogystal ag addoli.

Band Cost: C

Cyswllt: Y Parch Madalaine Brady
Ffôn: 01407 810412

♻ *argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur wedi ei ailgylchu*

EGLWYS Y SANTES FAIR, PORTHAETHWY

Y bwriad yn Eglwys y Santes Fair oedd darparu cyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Plwyf Eglwysig a grwpiau eglwysig eraill, annog y gymuned i'w defnyddio a gwneud yr adeilad yn addas ar gyfer pobl anabl. Ar wahân i'r gangell, stripiwyd yr eglwys a siambr yr organ, gan gynnwys tynnu'r plastr (heblaw am y cyntedd a rhan uchaf waliau corff yr eglwys), a chodwyd y llawr yng nghorff yr eglwys.

Gosodwyd drysau llithro rhwng corff yr eglwys a'r gangell, fel bo modd cynnal digwyddiadau seciwlar yn y cyntaf o'r rhain. Mae'r gangell wedi ei hadfer i'w hysblander Fictoraidd, a thynnwyd y carped er mwyn cael gweld y teils mosäig Fictoraidd, a atgyweiriwyd dan gyfarwyddyd y Jackfield Conservation Studio Ltd.

Bellach yng nghorff yr eglwys mae cadeiriau cyfforddus, carped a llwyfan tua'r blaen gydag allor corff yr eglwys newydd ag iddi reiliau symudol. Mae'r fedyddfaen Fictoraidd mewn cilfach arbennig yng nghefn y corff.

Yng nghefn yr hen gorff mae cyntedd, cegin, toiled ar gyfer yr anabl, ystafell ymgynnull, festri newydd a galeri sydd â chyswllt teledu cylch cyfyng i gorff yr eglwys. Mae'r hen festri a siambr yr organ wedi eu troi'n ystafell ar gyfer y Clwb Sul. Hefyd, gosodwyd system wres canolog effeithiol, golau ychwanegol a system dolen sain newydd.

Mae'r gynulleidfa wedi derbyn yr aildrefnu, a gellir crynhoi eu sylwadau gyda geiriau un oedd gynt yn amheuwr: "Roeddwn i'n meddwl na fyddwn i'n ei hoffi, ond mae o'n fendigedig."

Hefyd mae cyngherddau wedi eu cynnal yn yr Eglwys, cyfarfod esgobaethol o Undeb y Mamau ac mae Weight Watchers yn cwrdd yma ddwywaith yr wythnos. Y bwriad yw cynnal Ffair Wanwyn yr eglwys yn y corff.

Band Cost C

Cyswllt: Y Parch. Ray Smith
Ffôn: (01248) 717265